| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Y CYNGOR LLAWN |
| **DYDDIAD** | 20 Hydref 2011 |
| **TEITL** | Ymgynghoriad ar ddyfodol Cartrefi Preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech. |
| **PWRPAS** | Mater i'w benderfynu. |
| **ARGYMHELLIAD** | Argymell i'r Cyngor y dylid dod a defnydd presennol Pant yr Eithin fel darpariaeth gofal preswyl i ben a dilyn rhaglen waith i sicrhau buddiannau ac ymateb i anghenion y preswylwyr cyfredol. |
| **AWDUR** | Gwen Carrington<br>Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y Cynghorydd R. Hywel Wyn Williams |

**1. Pwrpas yr adroddiad.**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw:-

i) Adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar ddyfodol Cartrefi Preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech.
ii) Cyflwyno argymhelliad ar ddyfodol cartref preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech.

**2. Cefndir**

Bydd yr aelodau'n ymwybodol o benderfyniad Bwrdd y Cyngor ar 2 Tachwedd 2010 i ymgynghori'n ffurfiol ar ddyfodol cartrefi preswyl anableddau dysgu Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech. (Gweler Atodiadau A a B)

Gwnaed y penderfyniad hwn ar y sail :-

- Bod modd diwallu anghenion nifer o breswylwyr y cartrefi mewn darpariaeth fyddai'n llawer mwy addas i'w pwrpas.
- Y gellir rhesymoli'r ddarpariaeth gyfredol i fod yn llawer mwy effeithiol.
- Bod angen i'r gwasanaeth gyflawni ei gynlluniau arbedion effeithlonrwydd o £300,000 erbyn Ebrill 2012, yn unol â disgwyliadau Strategaeth Arbedion Cyngor Gwynedd 2010-13.

Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd, cychwynnodd yr ymgynghoriad ar ddyfodol cartrefi preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech ar 9 Rhagfyr 2010, er mwyn canfod barn budd-ddeiliaid a'r cyhoedd ar yr opsiynau canlynol:

**Opsiwn 1** – Cadw'r ddau gartref ar agor a'u llenwi yn unol â'u cofrestriadau.

**Opsiwn 2** – Cau cartref Tan y Marian, Pwllheli a sefydlu uned breswyl ar gyfer 8 preswylydd yng nghartref Pant yr Eithin, Harlech.

**Opsiwn 3** – Cau cartref Pant yr Eithin, Harlech a sefydlu uned breswyl ar gyfer 8 preswylydd yng nghartref Tan y Marian, Pwllheli.

**Opsiwn 4** – Cau'r ddau gartref.

**3. Gweledigaeth Gwasanaethau i Bobl gydag Anableddau Dysgu**

Mae Strategaeth Anableddau Dysgu Cymru Gyfan (1983) yn datgan y dylai pobl gydag anableddau dysgu fwynhau bywyd cyffredin yn y gymuned, ymarfer eu hawliau fel unigolion a chael cefnogaeth i ddatblygu eu potensial llawn a'r her i'r Cyngor yw ceisio gwireddu hynny, nid ar sail patrymau'r gorffennol ond yn hytrach er mwyn sefydlu gwasanaeth sydd yn addas a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae Ystadegau Strategaeth Comisiynu Gwasanaethau Anableddau dysgu ar y cyd: Gwynedd 2007 – 2010 yn cydnabod y bydd y nifer o ddefnyddwyr y gwasanaeth yma yn codi yn sylweddol ( ychydig dros 500 yn 2007 i gyrraedd 650 yn 2020 ). Mae ein hasesiad o'r modelau presennol yn dangos y byddai parhau gyda darparu gwasanaethau ar eu cyfer yn dilyn y model traddodiadol yn codi'r costau o ychydig dan £12miliwn i £15 miliwn yn y cyfnod yna.

Nodwyd yn adroddiad Mobius UK Developing "Citizen Centred" Services for People with Learning Disabilities ( 2008 ) mai gweledigaeth Gogledd Cymru oedd :

" In North Wales our vision for the future is that people with Learning Disabilities will have a better quality of life; living locally where they feel "safe and well", where they are valued and included in their communities and have access to effective personal support that promotes independence, choice and control.

"The overall regional strategy proposes a reduction in the use of residential and nursing home care and an increase in the use of community living schemes, but with a significant change in the way such schemes are managed.
There is a need to target care offered so that 24 hour support is only offered where it is essential and that future schemes are developed for 2 or 3 users."

Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ar gais cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau Gogledd Cymru i gyd yn nodi, mai yng Ngwynedd, y dylid cynnig llety ar gyfer 2 - 4 unigolyn gyda'i gilydd.

Nodwyd hefyd fod angen cysidro :

- Lleihau dibyniaeth ar ddarparwyr mewnol
- Cytuno ar strategaeth Tai ar gyfer y grŵp yma ( Adroddiad Lletya Anabledd Dysgu wedi ei gwblhau )
- Cyflwyno Teleofal ( Gwaith yn parhau gyda hyn yn lleol )
- Datblygu opsiynau gofal ychwanegol gan leihau dibyniaeth ar fodelau cartref preswyl traddodiadol.

Mae'r adroddiad yn nodi ymhellach y dylai modelau o wasanaethau dydd fod yn llwyr integredig yn y gymuned.

Mae gwaith John Bolton ( gomisiynwyd drwy SSIA Cymru ) yn nodi fod 40% o gostau gofal preswyl yn ymwneud â'r adeilad, nid y gofal.

Hynny yw, drwy symud at fodel lle mae tenantiaeth a gofal yn cael eu cysidro ar wahân, mae posib lleihau costau i'r awdurdod lleol tra'n ein galluogi i gynnal gwasanaethau gofal ar y lefel briodol ar gyfer yr unigolyn.

Mae hyn yn golygu y gellir cyfarch y disgwyliadau ohonom gan gynnig gwasanaethau sydd yn cefnogi defnyddwyr i gyrraedd eu potensial fel dinasyddion yn y gymuned a symud i ffwrdd o drefn sydd yn eu gweld yn unig fel preswylwyr cartrefi.

Mae'n deg herio a yw symud preswylwyr o un ardal i'r llall yn groes i'r weledigaeth o gynnig gwasanaeth lleol. Fodd bynnag, mae gwybodaeth yng nghorff yr adroddiad yn manylu ar y goblygiadau teithio. Pwysleisir mai symudiad tymor byr fyddai hyn er mwyn ymateb i ddisgwyliadau'r Cyngor i'r gwasanaeth wneud arbedion ariannol yn erbyn cyllid gofal preswyl erbyn Ebrill 2012. Y nod yw sicrhau fod gennym fodelau tai gofal ychwanegol a thenantiaethau llawn yn y gymuned ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth yma ym mhob ardal.

Wrth gwrs, mae angen cydweithio â phartneriaid fel Cymdeithasau Tai  er mwyn cyflawni ar y weledigaeth .Mae un gymdeithas eisoes wedi datgan diddordeb i gyd weithio er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol ar safleoedd cartrefi preswyl cyfredol yn y tair ardal.

**4. Y Broses Ymgynghori.**

Fel rhan o'r broses ymgynghori, paratowyd pecyn gwybodaeth a holiadur ar gyfer pawb oedd yn gynwysedig yn y rhestr ymgynghori (Atodiad C) ac unrhyw un arall a gysylltodd gyda'r Cyngor i wneud cais am wybodaeth.

Ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori rhannwyd y pecynnau gwybodaeth a'r holiaduron gydag aelodau staff y ddau gartref drwy gyfarfodydd.

Gosodwyd rhybuddion cyhoeddus a datganiadau yn y wasg, ac mewn lleoliadau cyhoeddus e.e. llyfrgelloedd a swyddfeydd post o fewn dalgylch y ddau gartref.

Er mwyn derbyn ymatebion oddi wrth y preswylwyr, fe gomisiynwyd y Gwasanaeth Eiriolaeth i ymgymryd â thrafodaethau unigol gyda phob preswylwyr.

Trefnwyd sesiynau agored i roi cyfle i bawb a oedd gan ddiddordeb yn yr ymgynghoriad dderbyn fwy o wybodaeth am y broses ac i gynnig syniadau i'r Bwrdd Prosiect. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yma ym Mhenrhyndeudraeth ar 18 Ionawr ac ym Mhwllheli ar 25 Ionawr 2010. Daeth un person i'r sesiwn ym Mhenrhyndeudraeth a phedwar person arall i'r sesiwn ym Mhwllheli.

Ar gais perthynas i breswylydd yn Nhan y Marian, gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd Prosiect i gyfarfod cyhoeddus ym Mhwllheli ar nos Lun 14 Chwefror 2010 i drafod yr ymgynghoriad ar Dan y Marian yn benodol.

**5. Casgliadau'r Ymgynghoriad.**

Daeth yr ymgynghoriad ffurfiol i ben ar 9 Mawrth 2011.

Derbyniwyd 126 ymateb drwy holiadur i'r ymgynghoriad, un adroddiad o gyfweliad gyda theulu preswylydd Pant yr Eithin ac 1 llythyr.
Derbyniwyd ymateb ffurfiol ar ffurf adroddiad oddi wrth Adran Darparu a Hamdden.

Roedd yr ymgynghoriad yn dangos bod y mwyafrif o blaid cadw'r ddau gartref ac o osod y dewis hynny gerbron, nid oedd yr ymateb hynny yn syndod.

Gweler dadansoddiad manwl yn Atodiad CH.

**5a. Sylwadau a gynigwyd yn ystod yr Ymgynghoriad.**

Mae modd rhannu'r sylwadau i dri phrif gategori sef:-

1. Cynigion ar gyfer datblygiadau posib o fewn y ddau gartref cyfredol.
2. Nodi bod nifer o drigolion wedi ymgartrefu yn y cartrefi ers peth amser a byddai newid yn anodd iddynt.
3. Nodi pwysigrwydd gwasanaethau lleol a chadw defnyddwyr gwasanaeth yn eu cynefin.

**5b. Cynigion amgen i'r ymgynghoriad**

Bu sawl cynnig ynglŷn â defnydd amgen i'r ddau gartref er mwyn parhau gyda gwasanaeth ar y ddau safle.

- Addasu adeilad cartref Tan y Marian yn fflatiau annibynnol i oedolion gydag anableddau dysgu.
- Rhannu cartref preswyl presennol Pant yr Eithin yn 2 dŷ gyda chefnogaeth gan drosglwyddo'r adeilad i Gymdeithas Tai neu Gwmni Tai a darparu gofal cymunedol (gofal cartref) i lefel fyddai'n cyfarfod ag anghenion pob unigolyn.
- Rhannu cartref preswyl presennol Tan y Marian yn 2 dŷ gyda chefnogaeth gan drosglwyddo'r adeilad i Gymdeithas Tai neu Gwmni Tai a darparu gofal cymunedol (gofal cartref) i lefel fyddai'n cyfarfod ag anghenion pob unigolyn.
- Cyfyngu cartref Tan y Marian gan ddefnyddio rhan o'r adeilad yn unig, a rhyddhau gweddill yr adeilad i ddefnydd ehangach o fewn y sector annibynnol / cymunedol.
- Cyfyngu cartref Tan y Marian gan ddefnyddio rhan o'r adeilad yn unig, a rhyddhau gweddill yr adeilad ar gyfer gwasanaethau ehangach e.e. gofal brys / ysbaid.

- Datblygu tir Pant yr Eithin ar gyfer tai cymysg gan gynnwys tai cymdeithasol yn ogystal â darpariaeth llety i oedolion gydag anableddau dysgu.

Mae aelodau'r Bwrdd Prosiect wedi ystyried yr opsiynau uchod ac wedi rhestru manteision ac anfanteision yr holl opsiynau (Gweler Atodiad D).

**6. Sail yr argymhelliad ac ystyriaethau.**

Wrth ystyried dyfodol cartrefi preswyl Tan y Marian a Phant yr Eithin, mae gan y Bwrdd Prosiect Anableddau Dysgu 4 brif nod, sef:-

1) Pwyso a mesur yr holl dystiolaeth sy'n codi o'r ymgynghoriad statudol.
2) Sicrhau bod unrhyw argymhelliad yn cwrdd â, ac yn diwallu anghenion preswylwyr cyfredol y cartrefi.
3) Sicrhau fod unrhyw argymhelliad yn cyd-fynd â gweledigaeth a bwriadau comisiynu'r Cyngor, er mwyn datblygu gwasanaeth addas ar gyfer diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth gydag anableddau dysgu yn y tymor hir.
4) Cwrdd â tharged arbedion o £300,000 ar gost cartrefi preswyl anableddau dysgu'r Cyngor yn unol â disgwyliadau Strategaeth Arbedion Cyngor Gwynedd 2010-13.

Wrth gyrraedd yr argymhelliad, yn ogystal ag ymatebion i'r ymgynghoriad, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r isod:-

- Anghenion y preswylwyr
- Asesiad ar adeiladau'r cartrefi presennol
- Effaith ar deuluoedd y preswylwyr
- Deddf Iawnderau Dynol
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y preswylwyr
- Gwasanaethau dydd

**6a. Anghenion preswylwyr y ddau gartref.**

Mae cyfanswm o 11 preswylwyr yn y cartrefi ar hyn o bryd. 6 ym Mhant yr Eithin a 5 yn Nhan y Marian.

Yn dilyn asesiadau ac adolygiadau o'r preswylwyr, mae'r gwasanaeth wedi adnabod y dylid diwallu anghenion 8 preswylydd mewn uned sy'n cynnig gofal lefel preswyl, tra bod 3 yn gymwys i dderbyn gwasanaeth yn y gymuned gyda chefnogaeth briodol.

| | Cartref Tan y Marian (Pwllheli) | Cartref Pant yr Eithin (Harlech) |
|---|---|---|
| Nifer y preswylwyr cyfredol | 5 | 6 |
| Nifer y preswylwyr lle mae asesiadau anghenion yn datgan y dylid parhau mewn darpariaeth gofal preswyl | 4 | 4 |
| Nifer y preswylwyr y dylid eu lleoli mewn darpariaeth llety mwy annibynnol / cymunedol e.e. llety cefnogol gyda thenantiaeth | 1 | 2 |

Tabl 1. - Lleoliad llety pwrpasol ar gyfer preswylwyr Tan y Marian a Phant yr Eithin.

**6b. Astudiaeth ar safon adeiladau'r ddau gartref.**

Comisiynwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd i ymgymryd ag astudiaeth o gyflwr adeiladau'r ddau gartref preswyl ym mis Chwefror 2011.

Pwrpas yr astudiaeth hon oedd canfod gwybodaeth ffeithiol a manwl ar gyflwr ac addasrwydd y ddau adeilad yn unol â disgwyliadau'r ymgynghoriad, hynny yw, sefydlu cartref preswyl ar gyfer cyfanswm o 8 preswylydd.

Mae'n amlwg o'r astudiaeth bod adeiladau'r ddau gartref angen buddsoddiad sylweddol dros y blynyddoedd nesaf os ydym am barhau i'w defnyddio i ddarparu gofal preswyl.

Wrth asesu'r adeiladau presennol, codwyd y prif bwyntiau isod:-

- Mae cartref Tan y Marian wedi ei gofrestru ar gyfer cyfanswm o 8 preswylydd a Phant yr Eithin ar gyfer cyfanswm o 6 preswylydd.
- Ni fyddai angen addasu cartref Tan y Marian pe byddai angen cartrefu 8. Mae ystafelloedd personol y preswylwyr yn cydymffurfio gyda safonau gofal.
- Byddai angen addasu adeilad cartref Pant yr Eithin i sicrhau y gellid ei gofrestru ar gyfer 8 preswylwyr. Nifer o ystafelloedd personol y preswylwyr cyfredol ddim yn cydymffurfio a safonau gofal. Mae'r darparwr wedi dod i gytundeb gyda'r arolygwyr drwy gynnig ystafelloedd ychwanegol fel rhan o'r gofod personol.
- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi £363,000 dros y 7 mlynedd diwethaf yng nghartref Tan y Marian sy'n cynnwys costau o £200,000 ar gyfer gwaith atal tân yn 2006..
- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi £61,000 dros y 7 mlynedd diwethaf yng nghartref Pant yr Eithin. Nid yw'r gwaith adfer tân wedi ei gyflawni.

O'r ddau gartref, mae Tan y Marian, Pwllheli yn cyflwyno ei hun fel yr opsiwn gorau i gyfarch yr anghenion cyfredol. Hynny yw, sefydlu uned breswyl ar gyfer cyfanswm o 8 preswylydd.

Serch hynny, mae angen buddsoddi yn yr adeilad os am sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd i'r dyfodol.

**6c. Effaith ar deuluoedd**

Mae cydnabyddiaeth bod unrhyw newid yn effeithio ar deuluoedd yn ogystal â phreswylwyr ac mae teuluoedd wedi cael cyfle i ddatgan eu barn drwy'r ymgynghoriad yn ogystal â chyfarfodydd unigol gyda swyddogion o'r Gwasanaeth.

Y mater allweddol yn hyn o beth yw'r asesiad o anghenion unigolion. Yn amlwg, mae'n gwbl amhriodol i ni gyfeirio at achosion unigol ond, mewn termau cyffredinol, medrwn adrodd ar ganlyniad ein hasesiadau hyd yn hyn:-

Dylai 4 o breswylwyr Tan y Marian barhau mewn darpariaeth gofal preswyl gydag un yn cael lleoliad mewn darpariaeth llety mwy annibynnol.
Dylai 4 o breswylwyr Pant yr Eithin barhau mewn darpariaeth gofal preswyl gyda 2 o'r preswylwyr yn cael lleoliad mewn darpariaeth llety mwy annibynnol.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchiad o effaith teithio (dwyffordd) ar y teuluoedd.

**Teuluoedd preswylwyr Pant yr Eithin, pe bai preswylwyr yn trosglwyddo i gartref Tan y Marian.**

Teulu 1 – Gostyngiad o 12 milltir
Teulu 2 – Gostyngiad o 16 milltir
Teulu 3 – Cynnydd o 48 milltir
Teulu 4 – Cynnydd o 48 milltir

**Teuluoedd preswylwyr Tan y Marian pe bai preswylwyr yn trosglwyddo i gartref Pant yr Eithin.**

Teulu 1 – Cynnydd o 48 milltir
Teulu 2 – Cynnydd o 48 milltir
Teulu 3 – Cynnydd o 48 milltir
Teulu 4 – Cynnydd o 48 milltir

**6ch. Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar breswylwyr y cartrefi preswyl.**

Yr ydym wedi cynnal asesiad effaith cydraddoldeb llawn ar yr argymhelliad sy'n ynghlwm o fewn yr adroddiad hwn, ac o'r farn bod bob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod llais y defnyddwyr, eu teuluoedd a budd-ddeiliaid allweddol wedi ei ystyried.

Mae'r newidiadau yma yn sicr o effeithio ar nifer o unigolion a'u teuluoedd a chymunedau. Fodd bynnag, y farn yw bod yr argymhelliad yn parhau i fod yn ddilys a bod modd ymateb i unrhyw bryderon pellach.

Mae'r asesiad llawn wedi ei gynnwys yn Atodiad DD.

**6d. Deddf Iawnderau Dynol**

Wrth ystyried penderfynu cau cartref preswyl mae'n rhaid tynnu sylw at weithrediad Deddf Iawnderau Dynol gan gynnwys, yn benodol, oblygiadau Erthygl 8 o Gytundeb Ewrop ar hawliau Dynol. Mae Erthygl 8 yn gwarchod hawliau sydd yn cynnwys yr hawl i fywyd preifat ac i gartref. Nid yw yn hawl llwyr a gellir cyfiawnhau ymyrraeth â'r hawliau ar sail buddiannau'r gymdeithas ehangach. I wneud hyn mae angen pwyso a mesur hawliau'r trigolion yn erbyn y buddiannau ehangach sydd yn ynghlwm â phenderfyniad i gau. Fodd bynnag nid yw hyn yn golygu fod angen asesiad manwl o anghenion pob unigolyn ar yr adeg yma (yn absenoldeb amgylchiadau arbennig) ond yn hytrach ystyriaeth gyffredinol o ardrawiad posib y penderfyniad ar y trigolion fel grŵp i'w gloriannu yn erbyn yr achos sydd yn cael ei roi ymlaen i gefnogi cau.

Mae cydnabyddiaeth bod newid fel symud cartref yn cael effaith ar unrhyw unigolion. Mae preswylwyr cartrefi Tan y Marian a Phant yr Eithin yn unigolion mwy bregus na'r arfer ond mae tystiolaeth i gefnogi y gall unigolion bregus ymdopi â newidiadau gyda chefnogaeth addas, amserol a phriodol.

Mae Gwasanaeth Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd yn wasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn ogystal â gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, mae nyrsys cymwysedig hefyd ar gael o fewn y maes i ymateb i anghenion unigolion.

Rhaid pwysleisio, bod anghenion pob unigolyn yn wahanol a byddai rhaglen waith cynhwysfawr yn cael ei osod mewn lle i ymateb i anghenion arbennig pob unigolyn a'u cefnogi i gynefino ag unrhyw newid. Byddai'r rhaglenni yma yn cael eu hadnabod mewn trafodaethau gyda'r unigolion, eu teuluoedd, Gwasanaeth Eiriolaeth (ble bydd yn berthnasol) a'r holl staff gofal a chefnogaeth sy'n cael eu comisiynu gan y Cyngor trwy'r Adran Darparu a Hamdden a'r asiantaethau eraill sy'n ynghlwm a'r cynllun.

Bydd mewnbwn arbenigwyr meddygol yn ogystal â meddygon teulu ar gael i gryfhau'r elfennau gofal cymdeithasol a nyrsio arbenigol cymunedol.

Yn ogystal â hyn, byddai gofyn i:-

- Adolygu'r pecynnau cefnogol yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn addas a phriodol
- Glustnodi adnoddau ychwanegol drwy'r Gwasanaeth Eiriolaeth a drwy'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr ar gyfer y teuluoedd drwy gydol y proses.

**6e. Darpariaeth Dydd – Uned Harlech.**

Mae 4 o drigolion Pant yr Eithin yn derbyn gwasanaeth dydd yn Uned Harlech. Lleolir Uned Harlech yn adeilad cartref Pant yr Eithin a darperir gwasanaeth dydd yno am 4 diwrnod yr wythnos rhwng dydd Llun a dydd Gwener.

Pe bai cartref Pant yr Eithin yn cau, ni ragwelir y bydd angen parhau i ddarparu gwasanaeth dydd yn Uned Harlech. Byddai’r trigolion yn derbyn gwasanaeth mewn darpariaeth dydd yn eu lleoliadau newydd, y byddai’n ymateb i’w hanghenion.

**7. Casgliad**

Er mwyn ymateb i’r angen i wneud arbedion, nodir y gellir rhesymoli'r ddarpariaeth gyfredol mewn un lleoliad. Mae hyn yn golygu sicrhau defnydd o uned sydd yn barod wedi ei gofrestru ar gyfer 8 unigolyn a hefyd sydd yn galluogi i ymateb mewn ffordd fwy effeithiol i anghenion tri defnyddiwr.

Yr ydym yn ymwybodol drwy’r ymgynghoriad bod gan ddefnyddwyr, gofalwyr ac aelodau’r cyhoedd disgwyliadau am wasanaethau lleol ond hefyd gwasanaethau sydd yn rhoi gwell dewis a hyblygrwydd.

Mae cytundeb nad yw model traddodiadol o ofal preswyl yn addas ar gyfer y dyfodol ac mae hyn yn rhan annatod o’n gweledigaeth ar gyfer datblygu gwasanaeth i’r dyfodol.

Byddai gwireddu ar unrhyw opsiwn i addasu adeilad mewn unrhyw ffordd yn golygu arian cyfalaf a methiant i gyrraedd yr arbedion o fewn yr amserlen ddisgwyliedig.

Wrth gymryd y cam i resymoli'r gwasanaeth yn y tymor byr, mae posib gweithredu ar y weledigaeth yn y tymor byr drwy weithio gyda phartneriaid i greu darpariaeth addas i gymryd lle model gofal preswyl traddodiadol yn y tair ardal.

Argymhelliad yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yw:-

i) Y dylid dod â defnydd presennol Pant yr Eithin, Harlech fel darpariaeth gofal preswyl i ben a :-

    - Sefydlu darpariaeth breswyl ar gyfer cyfanswm o 8 preswylydd sydd angen parhau mewn darpariaeth gofal preswyl yng nghartref Tan y Marian, Pwllheli.

    - Sicrhau bod holl breswylwyr cyfredol y ddau gartref yn derbyn gwasanaeth llety byddai’n addas a phriodol yn unol ag asesiadau anghenion yr unigolion.

Byddai dilyn yr argymhelliad uchod yn sicrhau:-

i) Bod pob preswylydd cartrefi preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech yn parhau i dderbyn gwasanaeth llety mewn darpariaeth y byddai’n addas a’n briodol i’w hanghenion.

ii) Dod a chyfnod o ansicrwydd i breswylwyr a’u teuluoedd i ben yn dilyn bron i 10 mlynedd o drafodaethau ar ddyfodol cartrefi preswyl anableddau dysgu.

iii) Y gellir rhesymoli gwasanaeth gofal preswyl cyfredol y Cyngor a gwireddu cyfanswm arbedion o hyd at £230,000 y flwyddyn yn unol â disgwyliadau Strategaeth Arbedion Cyngor Gwynedd 2010-13.

iv) Y gellir galluogi'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu ar gyfer gwasanaethau priodol a mwy modern ar gyfer y dyfodol.

v) Bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn trafod gyda phartneriaid, sydd eisoes wedi mynegi diddordeb ac eraill er mwyn datblygu modelau llety addas a modern ar gyfer y dyfodol. Drwy ddileu gwasanaeth ym Mhant yr Eithin, Harlech, mi fydd rhan o dir sylweddol yn cael ei rhyddhau, gall fod o fantais i'r trafodaethau hyn

**7a. Dadansoddiad Arbedion.**

Cost gyfredol rheoli'r ddau gartref preswyl - £832,000 (gweler isod)

| | Tan y Marian (Pwllheli) | Pant yr Eithin (Harlech) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| cost gyfredol y cartrefi 2011/12 (£) (angen cadarnhau) | 480,000 | 372,000 | £832,000 |
| cofrestriad | 8 | 6 | 14 |
| nifer y preswylwyr 1/7/2010 | 5 | 6 | 11 |
| cost uned ar sail nifer y preswylwyr (£)<br>yr wythnos (£) | 96,000<br>1,846 | 62,000<br>1,192 | |

Arbedion drwy gau Pant yr Eithin £360,000
Costau arfaethedig (£130,000)

Cyfanswm arbedion £230,000 (y flwyddyn)

Y byddai'r Gwasanaeth yn awyddus i glustnodi oddeutu £30,000 ar gyfer ariannu adnoddau ychwanegol yn ystod y cyfnod trosglwyddo, byddai'n cynnwys gwaith i addurno ystafelloedd personol preswylwyr bydd yn trosglwyddo i gartref Tan y Marian.

Felly.
Cyfanswm yr arbedion 2012/13 £200,000 (y flwyddyn)
Cyfanswm o 2013 ymlaen £230,000 (y flwyddyn)

**Nodyn.**
Y byddai'r swm uchod yn ychwanegu at oddeutu £54,000 o arbedion disgwylir i'w wireddu drwy adolygiad o anghenion gofal yng nghartref preswyl Frondeg, Caernarfon sy'n rhoi arbedion parhaol o £284,000 y flwyddyn.

**7b. Sefyllfa cyflogaeth.**

i) Cartrefi Preswyl

Cyflogir 16 aelod o staff yng nghartref Pant yr Eithin a 20 yn Nhan y Marian

Byddai cau un o'r cartrefi yn golygu bod aelodau staff y Cyngor, yn y lleoliad sydd yn cau, mewn sefyllfa o ormodedd staff

Cyflogir 4 aelod o staff yn narpariaeth dydd Uned Harlech. Byddai cau Pant yr Eithin yn golygu bod angen adolygu'r ddarpariaeth dydd ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth a fydd o ganlyniad yn arwain at adolygiad o'r sefyllfa cyflogaeth i'r staff hynny.

Pe byddai Pant yr Eithin yn cau, byddai angen gwneud gwaith manwl o ran asesu gofynion gofal unigolion ac yna'r strwythur staffio sydd angen yn Nhan y Marian ar gyfer cwrdd â'r gofynion hyn yn llawn. Byddai staff Pant yr Eithin, Harlech mewn sefyllfa o ormodedd ac yn cael blaenoriaeth, yn y drefn ymgeisio, am unrhyw swydd fyddai'n ychwanegol i'r strwythur presennol yn Nhan y Marian. Yn unol â threfn y Cyngor, byddai trafodaethau unigol yn digwydd gyda holl staff a byddai materion fel bwriadau ymddeol ayyb yn cael eu hamlygu.

i) Darpariaeth dydd - Uned Harlech.

Cyflogir 4 aelod o staff yn narpariaeth dydd Uned Harlech.

Byddai cau Pant yr Eithin yn golygu bod angen adolygiad o'r sefyllfa cyflogaeth i'r staff hynny.

**8. Pwyllgor Craffu Gofal – 28 Mehefin 2011**

Cyflwynwyd adroddiad yn argymell dyfodol cartrefi preswyl anableddau dysgu i Bwyllgor Craffu Gofal ar 28 Mehefin 2011. Gweler isod argymhelliad y pwyllgor a rhai o sylwadau derbyniwyd gan aelodau'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD gwrthod yr holl argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Prosiect Anableddau Dysgu a bod disgwyl i fanylion pellach gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan yr aelodau.**

Rhestrir isod, sylwadau aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal ac ymateb swyddogion Bwrdd Prosiect Anableddau Dysgu.

| Sylwadau'r Pwyllgor | Ymateb |
|---|---|
| fod angen manylion pendant ynglŷn ag ariannu datblygiad gyda gwybodaeth yn cael ei gyflwyno ynglŷn ag unrhyw fwriad i gau un o'r cartrefi er mwyn sicrhau cyllid. | Yr ydym yn ymwybodol y byddai unrhyw addasiad i adeilad presennol neu adeiladu adeiladau ) o'r newydd yn gofyn am arian cyfalaf.<br>Byddai rhaid sefydlu partneriaeth gydag asiantaethau ariannol ar gyfer hyn. Mae'n bur debyg mae cyfraniad y Cyngor at unrhyw ddatblygiad fyddai tir.<br>Mae Cymdeithas Tai Eryri wedi datgan diddordeb mewn cyd-weithio gyda ni i ddatblygu safleoedd lle mae cartrefi anableddau dysgu ar hyn o bryd ac y mae ganddynt syniadau pendant ar hyn.<br>Rhaid pwysleisio nad yw'r trafodaethau wedi symud i'r pwynt trafod ariannu unrhyw ddatblygiad hyd yma.<br>Roedd gofyn am sêl bendith er mwyn bwrw ymlaen gyda hyn yn rhan o'r argymhellion oedd ger bron y Pwyllgor Craffu. |
| fod angen sicrhau fod cyllid mewn lle ar gyfer datblygiad cyn cau unrhyw un o'r cartrefi. | Mewn sefyllfa ddelfrydol hyn efallai fyddai'r ffordd orau ymlaen.<br>Yn anffodus, mae'r sefyllfa economaidd genedlaethol a phwysau ariannol y Cyngor yn golygu nad yw hyn yn bosib ar hyn o bryd.<br>Gofynnwyd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol wneud arbedion o £300,000 yn erbyn cyllid cartrefi preswyl anableddau dysgu erbyn Ebrill 2012.<br>Mae'r cynnig sydd ger bron ar hyn o bryd yn rhesymoli'r gwasanaeth preswyl er mwyn cyrraedd y targed yma ond ar yr un pryd yn sicrhau gwasanaethau addas i'r 11 preswylydd sydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y gwaith yma.<br>Ar yr un pryd, mae'n ein gyrru i gyfeiriad datblygiadau newydd mewn partneriaeth sydd yn mynd i gynorthwyo cwrdd â gofynion y dyfodol.<br>Fodd bynnag, mae angen gwneud un pwynt pwysig iawn sydd yn dueddol i gael ei anghofio – nid yw gwasanaeth na chefnogaeth yn ddibynnol ar adeilad. |

| | |
|---|---|
| | Yn wir, mae posib creu pecynnau gofal creadigol iawn tu allan i waliau cerrig.<br>Mae gwaith yr ymgynghorydd John Bolton ( drwy `r SSIA ) a'i ddadansoddiad o sefyllfa genedlaethol ac yma yng Ngwynedd yn ein harwain at fodelau gofal sy'n caniatáu i Wasanaethau Cymdeithasol ganolbwyntio ar y gwaith o greu cynlluniau gofal a gadael i'r elfen dai cael ei gynnal drwy asiantaethau eraill sy'n arbenigo yn hyn. Mae amcangyfrif bod 40% o gostau preswyl yn ymwneud a chostau adeilad/preswyl ac nid yn uniongyrchol gyda gofal a lles yr unigolyn.<br>Mae posib ariannu'r elfen yma drwy ffynonellau eraill sy'n rhyddhau cyllid gofal. |
| fod angen gwybodaeth ynglŷn â'r gost o ddarparu'r gwasanaeth yn y gymuned. | Mae hyn yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn a'i leoliad.<br>O safbwynt ymateb i anghenion y preswylwyr yn y cartrefi fyddai'n elwa o leoliad byw'n fwy annibynnol yn y gymuned, amcangyfrif y byddai £100,000 y flwyddyn yn cwrdd â'r anghenion yma. Mae hyn yn gost ar gyfartaledd o tua £33,000 y person i gymharu â chostau o'u cynnal mewn cartref preswyl o tua £60,000 ar gyfartaledd. |
| fod addewid wedi ei roi yn y gorffennol y byddai cynghorwyr yn cael ymweld â gwahanol fodelau preswyl ond nad oedd hyn wedi ei gyflawni | Rhaid ymddiheuro nad yw'r ymweliadau eto wedi cymryd lle, ond mae trefniadau ar gyfer hyn mewn llaw. |
| fod angen i ofalwyr o gartref Pant yr Eithin gael eu trosglwyddo gyda'r preswylwyr unigol i gartref Tan y Marian pe byddai Pant yr Eithin yn cau yn ôl argymhelliad y Bwrdd Prosiect. Esboniwyd fod angen cadw at Bolisïau Gormodedd y Cyngor ac y byddai'n rhaid cymryd barn broffesiynol adnoddau dynol ar y sefyllfa. | Gwybodaeth ynghlwm o fewn yr adroddiad. |
| fod bwriad i gau unrhyw un o'r cartrefi yn groes i Weledigaeth y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n nodi'r | Gweler adroddiad pellach ar y weledigaeth.<br>Nodir mai ymdrech sydd yma i ymateb i ddisgwyliad corfforaethol a gwleidyddol fod y Gwasanaeth yn cynllunio ar gyfer arbedion o £300,000 yn erbyn cyllid Gofal Preswyl Anableddau Dysgu erbyn Ebrill 2012 , |

| | |
|---|---|
| angen i greu cymunedau ble mae pobl eisiau byw yn awr ac yn y dyfodol | ond bod hyn yn digwydd mewn modd sydd yn caniatáu i ni barhau i gynllunio ar gyfer y dyfodol gan ddilyn y cyfeiriad strategol a'r weledigaeth.<br>Nid yw'r argymhelliad yn amharu ar y weledigaeth yn y tymor canolig/hir gan fod bwriad i weithio at sefydlu darpariaeth addas ac amrywiol ym mhob ardal.<br>Yr oedd argymhellion pellach yn yr adroddiad aeth i`r Pwyllgor Craffu yn gofyn am sêl bendith i wneud hyn. |
| fod angen gwybodaeth ynglŷn â'r safle pe byddai cartref yn cael ei gau – dylai'r wybodaeth yma gynnwys manylion ynglŷn â darpar brynwr a manylion ynglŷn ag adnoddau eraill fyddai'n cael eu darparu. | Mae angen y drafodaeth yma am y tri safle lle mae cartrefi ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu fyddai'n cynnwys anghenion y gymuned leol. Gwelir fod hyn yn drafodaeth ehangach.<br>Er enghraifft, r ydym o'r farn bod angen adnoddau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu ond mae cyfle yma i edrych ar anghenion pobl hyn neu deuluoedd ifanc. Gellir gweld hefyd y byddai rhai cymunedau yn dymuno cael canolfan gymunedol ac mae angen plethu'r drafodaeth yna i mewn i anghenion gwasanaethau dydd ar draws wasanaethau cymdeithasol. |


**9. Argymhelliad.**

Wedi ystyried a chloriannu'r holl wybodaeth sy'n gynwysedig o fewn yr adroddiad hwn, yr argymhelliad yw:-


Y dylid dod â defnydd presennol Pant yr Eithin, Harlech fel darpariaeth gofal preswyl i ben a sicrhau bod holl breswylwyr cartrefi preswyl cyfredol Pant yr Eithin, Harlech a Than y Marian, Pwllheli yn parhau i dderbyn gwasanaeth mewn darpariaeth llety byddai'n addas a phriodol i'w hasesiadau anghenion.

Pe byddai'r argymhelliad uchod yn cael ei gymeradwyo, byddai swyddogion yn symud ymlaen i ddilyn proses ffurfiol gyda Chymdeithas Tai Eryri er mwyn llunio Cynllun Busnes ar gyfer datblygu y tir yn unol a'r gwybodaeth sy'n ynghlwm yn Atodiad E.

**Atodiad A – Cynllun Lleoliad, Tan y Marian, Pwllheli**



**Atodiad B – Cynllun Lleoliad, Pant yr Eithin, Harlech**



**Atodiad C – Rhestr Ymgynghori**

Cafodd pecynnau gwybodaeth a holiaduron yr ymgynghoriad eu gyrru allan yn benodol i:-

- Teuluoedd y Preswylwyr
- Aelodau Staff cartrefi Tan y Marian a Phant yr Eithin
- Meddygfeydd yr ardal
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
- Mantell Gwynedd
- Mencap
- Aelod Seneddol
- Aelod Cynulliad
- Cynghorwyr Lleol
- Cynghorau Cymunedol / Tref

Fe gomisiynwyd y Gwasanaeth Eiriolaeth i ymgymryd â thrafodaethau gyda phreswylwyr y cartrefi er mwyn derbyn eu hymateb.

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi yn yr Herald Caernarfon a’r Cambrian News ar ddydd Iau 9 Rhagfyr 2010.

Gosodwyd rhybuddion yn llyfrgelloedd a swyddfeydd post lleol.

**Atodiad CH Ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd drwy'r holiaduron:-

| | | ar ran pa gartref roeddynt wedi ymateb ? | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm . | Tan y Marian | Pant yr Eithin | heb ddewis |
| **Opsiwn 1**<br>Cadw'r ddau gartref ar agor a'u llenwi yn unol â'u cofrestriadau. | 103 (81.8%) | 84 | 14 | 5 |
| **Opsiwn 2**<br>Cau cartref Tan y Marian, Pwllheli a sefydlu uned breswyl ar gyfer 8 preswylydd yng nghartref Pant yr Eithin, Harlech | 10 (7.9%) | - | 9 | 1 |
| **Opsiwn 3**<br>Cau cartref Pant yr Eithin, Harlech a sefydlu uned breswyl ar gyfer 8 preswylydd yng nghartref Tan y Marian, Pwllheli. | 11 (8.7%) | 11 | - | - |
| **Opsiwn 4**<br>Cau'r ddau gartref. | 2 (1.6%) | 2 | - | - |

Tabl 2. Ymatebion i opsiynau'r ymgynghoriad.

Derbyniwyd dwy ddeiseb ar ran y ddau gartref.

**Dyma eiriad y ddwy ddeiseb**

**CADW CARTREF TAN Y MARIAN PWLLHELI YN AGORED**
**KEEPING TAN Y MARIAN PWLLHELI OPEN**

Arwyddwyd y ddeiseb gan 2803 o unigolion
The petition was signed by 2803 individuals

**PETITION TO KEEP PANT YR EITHIN OPEN**
**EIRCHION I GADW PANT YR EITHIN AR AGOR**

Arwyddwyd y ddeiseb gan 1141 o unigolion
The petition was signed by 1141 individuals

**Ymateb y preswylwyr drwy'r Gwasanaeth Eiriolaeth.**

Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol rhwng preswylwyr y ddau gartref a’r Gwasanaeth Eiriolaeth ar 9 a 10 Chwefror 2010.

Lluniwyd rhestr o gwestiynau anffurfiol gan y Gwasanaeth Eiriolaeth er mwyn derbyn barn y preswylwyr yn hytrach na dilyn proses ffurfiol yr holiadur.

Nid oedd pob un o’r preswylwyr yn medru cyfrannu i’r ymgynghoriad, ond gofynnwyd am farn eu teuluoedd.

Daeth i’r amlwg o’r cyfarfodydd hyn nad oedd cefnogaeth i gau’r un o’r cartrefi a bod teimladau cryf dros gadw'r cartrefi hyn yn agored.

**Atodiad D - Syniadau / Cynigion amgen i'r ymgynghoriad.**
Rhestrir manteision ac anfanteision y syniadau / cynigion hyn (ym marn swyddogion y Bwrdd Prosiect).

| **Opsiynau amgen** | **Manteision** | **Anfanteision** |
|---|---|---|
| Addasu adeilad cartref Tan y Marian i fod yn fflatiau annibynnol.<br>(Aelod o staff cartref Tan y Marian) | • Byddai'n cyd-fynd gyda gweledigaeth y Cyngor gan gynnig fwy o annibyniaeth.<br>• Gellid trosglwyddo perchnogaeth yr adeilad oddi wrth y Cyngor ac o hynny brofi arbedion.<br>• Cadw darpariaeth leol a chynaliadwy<br>• Cefnogaeth leol | • Mwyafrif o'r preswylwyr cyfredol wedi eu hasesu i fod angen parhau mewn gofal preswyl cyffredinol / arbenigol ac felly byddai'n ddarpariaeth anaddas i'w hanghenion.<br>• Amserlen yn brin i alluogi cyflawni arbedion.<br>• Annhebygol y byddai'r adeilad yn addas ar gyfer y fath addasiad heb fuddsoddiad sylweddol.<br>• Does ddim sicrwydd y byddai modd cael datblygwr i gymryd cyfrifoldeb am y gwaith gyda datblygwyr yn debygol o ffafrio adeiladu o'r newydd dros addasu adeiladau cyfredol. |
| Rhannu cartref preswyl presennol Pant yr Eithin i ddau dŷ gyda chefnogaeth.<br><br>Rhannu cartref preswyl presennol Tan y Marian i ddau dŷ gyda chefnogaeth.<br><br>(Adran Darparu a Hamdden) | • Gellid trosglwyddo perchnogaeth yr adeilad oddi wrth y Cyngor i Gymdeithas Tai neu gwmni tai annibynnol. Byddai cynnal a chadw'r adeilad yn gyfrifoldeb i'r landlord.<br>• Byddai'n cyd-fynd gyda gweledigaeth y Cyngor gan gynnig annibyniaeth.<br>• Cadw darpariaeth leol a chynaliadwy.<br>• Cefnogaeth leol.<br>• Sicrhau y gallai'r preswylwyr presennol aros yn eu cartref ond gyda mwy o annibyniaeth a mwy o hawliau gan y byddent yn denantiaid.<br>• Byddai'r tenantiaid yn talu rhent ac yn gyfrifol am dalu am fwyd, gwres ac anghenion dydd i ddydd. | • Amserlen yn brin i alluogi cyflawni arbedion.<br>• Dim sicrwydd y byddai'r adeiladau yn addas ar gyfer y math wasanaeth.<br>• Ddim yn ddefnydd effeithiol o dir Pant yr Eithin. Yr adeilad cyfredol wedi ei leoli ar ganol tir maint sylweddol ac yn cyfyngu'r gallu i ystyried datblygiad mwy effeithiol ac ehangach.<br>• Does dim sicrwydd y byddai modd cael datblygwr i gymryd cyfrifoldeb am y gwaith gan y byddent yn debygol o ffafrio adeiladu o'r newydd dros addasu adeiladau cyfredol sydd dros 30 mlwydd oed.<br>• Byddai'r Bwrdd Prosiect yn ffafrio adeiladau newydd sydd wedi eu cynllunio'n bwrpasol i anghenion cyfredol a'r dyfodol.<br>• Dim newid i hunaniaeth y cartref o fod yn gartref |

| | | |
|---|---|---|
| | | preswyl i fodel mwy annibynnol. |
| Cyfyngu cartref Tan y Marian i brif ddarn yr adeilad ac ystyried rhyddhau gweddill yr adeilad i bwrpas ehangach o fewn y gymuned e.e. sefydliadau cymunedol.<br>(Adran Darparu a Hamdden) | • Defnydd ychwanegol o'r adeilad presennol.<br>• Posib y gellir denu incwm rhent drwy ryddhau darn o'r adeilad. | • Angen i'r Cyngor fuddsoddi yn yr adeilad a'r tir o'i amgylch.<br>• Cyfyngu defnydd yr adeilad i'r preswylwyr. |
| Cyfyngu'r cartref Tan y Marian i brif ddarn yr adeilad ac ystyried rhyddhau gweddill yr adeilad i bwrpas ehangach o fewn y gymuned e.e. gwasanaeth gofal brys / ysbaid.<br>(Adran Darparu a Hamdden) | • Defnydd ychwanegol o'r adeilad presennol.<br>• Posib y gellid denu incwm rhent drwy ryddhau darn o'r adeilad. | • Angen i'r Cyngor fuddsoddi yn yr adeilad a'r tir o'i amgylch.<br>• Cyfyngu defnydd yr adeilad i'r preswylwyr. |
| Datblygu tir Pant yr Eithin, Harlech ar gyfer nifer o dai cymysg yn unol â'r angen.<br>(Cymdeithas Tai Eryri) | • Potensial i ddatblygu nifer o unedau gan gynnwys darpariaeth llety newydd a modern ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu.<br>• Tai newydd wedi eu cynllunio i bwrpas / defnydd ar gyfer anghenion y dyfodol.<br>• Cyd-fynd gyda gweledigaeth a bwriadau chomisiynu'r Cyngor o safbwynt datblygu llety newydd a modern ar gyfer ystod eang o anghenion lletya.<br>• Ddim yn hollol ddibynnol ar yr angen i ddenu grant tai cymdeithasol a bod posib ariannu'r cynllun drwy arian y sector annibynnol / breifat.<br>• Posib y gellid cyflawni anghenion lletya cyffredinol ychwanegol o fewn y dalgylch. | • Golygu gorfod cau cartref preswyl cyfredol a dymchwel adeilad presennol a rhyddhau darn o dir sy'n berchen y Cyngor ar gyfer datblygu'r fath cynllun.<br>• Bydd angen astudiaeth fanwl o'r angen am lety yn ardal Harlech, bydd yn cynnwys astudiaeth angen am lety i oedolion gydag anableddau dysgu i'r dyfodol.<br>• Er mwyn sicrhau cynllun tai hyfyw, gyda rhenti fforddiadwy ac i ddenu arian datblygu o'r sector annibynnol / preifat, byddai'n rhaid ystyried gwaredu'r safle am lai na phris marchnad agored.<br>• Posib y byddai angen cyfraniad / buddsoddiad Grant Tai Cymdeithasol. |

**Atodiad DD**.

## CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Os am gymorth gyda llenwi'r templed yma, cysylltwch â Ruth Richards, Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ruthrichards@gwynedd.gov.uk est. 2056

**ARGYMHELLIAD AR DDYFODOL CARTREFI PRESWYL TAN Y MARIAN, PWLLHELI A PHANT YR EITHIN, HARLECH**

### 1) AWDUR YR ASESIAD

| |
|---|
| Glyn Tomos, Rheolwr Gwasanaeth Oedolion (Datblygu a Chomisiynu), Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ran Bwrdd Prosiect Anabledd Dysgu |

### 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

| |
|---|
| Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol - a wnaeth yr argymhelliad i'r Bwrdd i ymgynghori ar ddyfodol cartrefi Tan y Marian a Phant yr Eithin<br>Bwrdd Cyngor Gwynedd - sydd wedi gwneud y penderfyniad i ymgynghori ar ddyfodol cartrefi Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech.<br>Pennaeth y Gwasanaeth Darparu a Hamdden - sydd yn gyfrifol am ddarparu'r gofal ar ran y defnyddwyr ac am y staff o dan y drefn bresennol ac yn y broses o ymgynghori ar ddyfodol y cartref.<br>Rheolwyr ac aelodau Timau Integredig (Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd) ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu<br>Gwasanaeth Adfocatiaeth Gogledd Cymru<br>Cynnal Gofalwyr Gwynedd |

### 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

| |
|---|
| 9 Mawrth 2011- dyddiad y daeth cyfnod ymgynghoriad ar ddyfodol cartrefi Tan y Marian a Phant yr Eithin i ben |

### 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

| |
|---|
| 26 Gorffennaf 2011 - Dyddiad y bydd Bwrdd y Cyngor yn penderfynu ar ddyfodol cartrefi preswyl Tan y Marian a Phant yr Eithin. |

### 5) PERTHNASEDD

Dylai hyn amlinellu beth yw perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb. Efallai na fydd perthnasedd i bob un, ond os canfyddir perthnasedd, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

**5a) Perthnasedd i'r Dyletswyddau Cyffredinol**

***Ymgynghoriad.***

Fe gydnabuwyd ar gychwyn y cyfnod ymgynghorol bod perthnasedd i bob un o'r Dyletswyddau Cyffredinol. Fel canlyniad sicrhawyd bod yr ymgynghoriad ar ddyfodol y ddau gartref (Tan y Marian a Phant yr Eithin) wedi ei hysbysebu'n eang yn y wasg er mwyn codi ymwybyddiaeth budd-ddeiliaid a'r cyhoedd o'r cyfnod ymgynghori ac annog gymaint â phosibl o bobl i gyfrannu yn y broses.
Darparwyd pecyn gwybodaeth ac fe'i rhannwyd gyda'r canlynol:

- Preswylwyr y cartrefi
- Teuluoedd y preswylwyr
- Staff y ddau Gartref
- Cynrychiolwyr Etholedig ardal y ddau Gartref
- Cyrff a mudiadau statudol a gwirfoddol sydd â diddordeb yn y sector gofal
- Aelodau'r cyhoedd a fynegodd ddiddordeb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda nifer o'r budd-ddeiliaid uchod ac fe drefnwyd cyfarfodydd ar adegau penodol ym Mhenrhyndeudraeth a Pwllheli pan oedd Swyddog o'r Cyngor yn bresennol ar gyfer derbyn barn budd-ddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.
Darparwyd Gwasanaeth Adfocatiaeth oedd yn annibynnol o'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei glywed yn llawn. Hefyd cynigiwyd gwasanaeth Cynnal Gofalwyr Gwynedd ar gyfer y teuluoedd.
Beth bynnag fo canlyniad y cynnig, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn cynnal deialog agored sy'n hygyrch ac addas

- **Hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif**

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod modd i bawb oedd â diddordeb allu mynegi barn drwy ystyried eu hanghenion cyfathrebu a chynnig gwahanol ddulliau o gyfrannu sylwadau. Comisiynwyd Gwasanaeth Adfocatiaeth Gogledd Cymru i gydweithio yn agos gyda'r preswylwyr ar gyfer clywed eu llais ac iddynt rannu unrhyw obeithion neu bryderon oedd ganddynt ynglŷn â dyfodol y ddau gartref.

- **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac**

**erledigaeth**

Dilynwyd y drefn o sicrhau bod pob un preswylydd yn derbyn asesiad cymdeithasol llawn a chyfredol o'u hanghenion er mwyn adnabod y lleoliad mwyaf addas, perthnasol a chost effeithiol o ymateb i'w anghenion. Gwnaed hyn ar y cyd gyda'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ac asiantaethau perthnasol eraill fel Iechyd.

- **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal**

Sicrhawyd hyn drwy

i) gomisiynu Gwasanaeth Adfocatiaeth sydd yn annibynnol ar gyfer galluogi budd -ddeiliaid i fynegi eu barn.
ii) Darparu pecyn gwybodaeth mewn dogfen hawdd i'w ddarllen, mewn print bras braille neu ar dâp ar gais.
iii) Asesu anghenion pob preswylydd a sicrhau bod eu lles yn ganolog a bod pob gwybodaeth wedi ei ddarparu ar sail hynny.

- **Meithrin perthnasau da**

Mae unrhyw farc cwestiwn dros ddyfodol gwasanaeth yn amlwg yn achos pryder a phoen i'r budd-ddeiliaid ac mae cynnal deialog agored a hwy trwy'r broses yn angenrheidiol. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda theuluoedd y preswylwyr cyn cyfarfod Bwrdd y Cyngor ym mis Tachwedd 2010 er mwyn egluro pwrpas a threfn y cyfnod ymgynghori ac yna wedyn cyn cyfarfod Pwyllgor Craffu Gofal ar yr 28ain o Fehefin 2011 er mwyn trafod gyda hwy'r argymhellion oedd o flaen y pwyllgor hwnnw.
Sicrhawyd bod pecyn gwybodaeth ar gael cyn y cyfnod ymgynghori ar gyfer esbonio'r cefndir a sefyllfa'r ddau gartref a'i osod yn ei gyd-destun.

**5b) Perthnasedd i wahanol elfennau cydraddoldeb**

- **Hil**

Pawb o'r defnyddwyr a staff y ddau gartref o gefndir gwyn Prydeinig.
Felly cynhyrchwyd y cyfan o'r llenyddiaeth a'r gohebiaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cymraeg neu Saesneg yw iaith gyntaf y sawl sydd a neu bydd yn cael eu heffeithio gan yr argymhelliad.

- **Rhyw** (yn cynnwys trawsrywiol, mamolaeth a beichiogrwydd)

Mwyafrif defnyddwyr a staff y ddau Gartref yn ferched.

- **Anabledd**

Mae pob un o'r preswylwyr yn oedolion gydag anabledd dysgu. Mae lefel yr anabledd yn amrywio gyda rhai ohonynt gydag anableddau corfforol ac anghenion iechyd.
Y mae'r ymgynghoriad wedi ystyried anghenion y defnyddwyr drwy gynnig y Gwasanaeth Adfocatiaeth annibynnol i'r rhai sydd yn dymuno ei ddefnyddio a drwy gynnig y pecyn ymgynghori mewn fformatau amgen yn unol â dewis yr unigolyn.

- **Yr iaith Gymraeg**

Yn unol â gofynion y preswylwyr darperir gwasanaeth trwy gyfrwng y ddwy iaith yn y ddau gartref a bydd hyn yn parhau beth bynnag fydd penderfyniad Bwrdd y Cyngor ar ddyfodol y cartrefi.
Sicrhawyd trwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad bod pob gohebiaeth, cyfarfod, taflenni ar gael yn y ddwy iaith. Roedd y pecyn ymgynghori yn y ddwy iaith fel bod unigolion yn gallu ymateb yn ôl eu dewis iaith. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y cyfarfodydd gyda'r staff.

- **Cyfeiriadedd rhywiol**

Ddim yn ymwybodol bod hyn wedi bod yn berthnasol ond pe byddai'r mater wedi codi fe fyddai wedi cael ei drin yn sensitif ac yn deg.

- **Crefydd neu gred**

Fel rhan o asesiad cymdeithasol pob preswylydd mae ystyriaeth yn cael ei roi i grefydd neu gred unigolyn ac fe wneir pob ymdrech i barchu dymuniad pob unigolyn i ymarfer eu cred neu gael mynediad at addoldy o'u dewis. Mae'n bosib y bydd rhai unigolion yn colli perthynas gyda'u Heglwys neu Gapel arferol o ganlyniad i'r argymhelliad ond fe wneir pob ymdrech iddynt ail afael yn yr arfer o fynychu addoldai o'u dewis yn eu hardal newydd. Cyn belled ag y gwyddom nid yw'r rai sydd yn debygol o orfod symud cartref neu ardal yn sgil yr argymhelliad i Fwrdd y Cyngor wedi gwneud cais penodol i'r mater yma gael ystyriaeth.

- **Oedran**

Oedolion 18 oed a throsodd fydd yn cael eu heffeithio gan yr argymhellion sydd yn mynd o flaen Bwrdd y Cyngor. Ystyrir oedran fel rhan o'r asesiad cymdeithasol/amlddisgyblaethol a wneir ar bob unigolyn. O ran yr ymgynghoriad hwn nid yw oedran yr unigolion yn effeithio o gwbl ar yr argymhellion y bwriedir eu gwneud.

**6) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH**
Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Mae Strategaeth Anableddau Dysgu Cymru Gyfan (1983) yn datgan y dylai pobl gydag anableddau dysgu fwynhau bywyd cyffredin yn y gymuned, ymarfer eu hawliau fel unigolion a chael cefnogaeth i ddatblygu eu potensial llawn a'r her i'r Cyngor yw ceisio gwireddu hynny, nid ar sail patrymau'r gorffennol ond yn hytrach er mwyn sefydlu gwasanaeth sydd yn addas a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
Mae hyn yn golygu y gellir cyfarch y disgwyliadau sydd ar y Cyngor drwy gynnig gwasanaethau sydd yn cefnogi defnyddwyr i gyrraedd eu potensial fel dinasyddion yn y gymuned a symud i ffwrdd o drefn sydd yn eu gweld yn unig fel preswylwyr cartrefi.
Pwysleisir mai symudiad tymor byr fydd hyn er mwyn ymateb i ddisgwyliadau'r Cyngor i'r gwasanaeth wneud arbedion ariannol yn erbyn cyllid gofal preswyl erbyn Ebrill 2012.
O'r ddau gartref, mae Tan y Marian, Pwllheli yn cyflwyno ei hun fel yr opsiwn gorau i gyfarch yr anghenion cyfredol. Hynny yw, sefydlu uned breswyl ar gyfer cyfanswm o 8 preswylydd.

**7) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**
Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

1. Paratowyd a rhannwyd pecyn gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn nodi'r cefndir ac yn gosod y sefyllfa yn ei gyd-destun.
2. Cyfarfodydd unigol gyda'r defnyddwyr a'u teuluoedd cyn cyfarfod Bwrdd y Cyngor ym mis Tachwedd 2010 a chyn cyfarfod Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Mehefin 2011.
3. Darparwyd gwasanaeth adfocatiaeth annibynnol i'r defnyddwyr a chefnogaeth Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr ar gyfer y teuluoedd.
4. Cyfarfodydd gyda'r staff cyn cyfarfod Bwrdd y Cyngor ym mis Tachwedd 2010 a chyn cyfarfod Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Mehefin 2011.
5. Sicrhawyd bod cefnogaeth gan Adran Adnoddau Dynol ar gael i gefnogi'r staff.
6. Cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda chyrff a mudiadau statudol a gwirfoddol sydd â diddordeb yn y sector gofal ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu.
7. Cynnal deialog gyda chynrychiolwyr etholedig.
8. Trefnwyd bod Swyddog o'r Cyngor ar gael ar amseroedd penodol ym Mhenrhyndeudraeth a Phwllheli i dderbyn sylwadau pobl yr ardal.

**8) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**
Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

| |
|---|
| Tystiolaeth wedi ei gynnwys yn yr adroddiadau a baratowyd ar gyfer cyfarfod Bwrdd y Cyngor ar yr 2il o Dachwedd 2010 ac yna ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Craffu Gofal ar yr 28ain o Fehefin 2011. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori casglwyd tystiolaeth ar ran y preswylwyr, teuluoedd, staff ac aelodau etholedig. Dangosodd y dystiolaeth honno nad oedd fawr ddim cefnogaeth i'r opsiwn o gau y naill gartref na'r llall ac o osod y dewis hynny gerbron, nid oedd yr ymateb hynny yn syndod. Mae dadansoddiad llawn o gasgliadau'r ymgynghoriad yn yr adroddiad i Fwrdd y Cyngor. Yn ogystal derbyniwyd nifer o gynigion/syniadau amgen ar gyfer y ddau gartref ar gyfer y dyfodol. Rhain i gyd wedi eu trafod yn llawn gan y Bwrdd Prosiect ac wedi rhestru manteision ac anfanteision yr holl opsiynau. Mae'r rhain eto wedi eu cynnwys yn yr adroddiad i Fwrdd y Cyngor. |

**9) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**
Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth a sut y caiff y rhain eu llenwi

| |
|---|
| Mae pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod pob tystiolaeth yn cael ei gynnwys yn sgil y broses ymgynghori gynhwysfawr a gynhaliwyd. Pe byddai unrhyw fylchau mewn tystiolaeth wedi dod i'n sylw yna fe fyddai wedi cael ei gyfarch a'i adrodd arno yn unol â'r drefn. |

**10) BETH YW'R EFFAITH WIRIONEDDOL NEU DEBYGOL**

**10 a) O safbwynt y grwpiau cydraddoldeb**

- **Hil**

Ni ragwelir y bydd yr argymhellion yn achosi mwy o bryder i un grŵp hil mwy nag un arall.

- **Rhyw**

Mae ystyriaeth lawn yn cael ei roi i hyn fel rhan o'r asesiad gofal cymdeithasol ar bob unigolyn. Ni ragwelir unrhyw anawsterau o ran sensitifrwydd rhywiol pe gweithredir ar yr argymhellion o symud preswylwyr o un cartref i'r llall.

**Anabledd**

Mae natur a dwyster yr anabledd yn ffactorau pwysig ar gyfer penderfynu ar leoliad mwyaf addas ar gyfer diwallu anghenion unigolion. O safbwynt anghenion preswylwyr cyfredol y ddau gartref argymhellir bod wyth yn parhau i dderbyn gofal preswyl tra bod modd diwallu anghenion tri arall mewn sefyllfa

tŷ gyda chefnogaeth yn y gymuned.
Bydd yr argymhelliad yn golygu newid sylweddol i fywydau'r preswylwyr a'u teuluoedd ac yn enwedig felly i'r sawl sy'n symud o'u cartref presennol un ai i gartref arall neu i ofal yn y gymuned. O fwrw blaen gyda'r argymhelliad, bydd rhaid sicrhau ein bod yn cymryd pob cam posib i leddfu'r effaith cythryblus yma drwy barhau i gynnal deialog agored ac ystyried anghenion penodol pob unigolyn. I'r perwyl yma, byddwn yn llunio a gweithredu rhaglen lawn o gefnogaeth.

- **Yr iaith Gymraeg**

Mae'n bolisi gan y Cyngor i ddarparu gwasanaeth yn unol â gofynion iaith pob unigolyn a bydd hyn yn parhau beth bynnag fydd penderfyniad Bwrdd y Cyngor.

- **Cyfeiriadedd rhywiol**

Ystyriaeth lawn yn cael ei roi i hyn fel rhan o'r asesiad cymdeithasol ar bob unigolyn ac nid oes rheswm i feddwl y bydd gweithredu'r argymhellion yn effeithio ar hyn.

- **Crefydd neu gred**

Ystyriaeth lawn yn cael ei roi i hyn fel rhan o'r asesiad cymdeithasol ar bob unigolyn. Er na godwyd hyn fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn cydnabod y gall gweithredu'r argymhellion olygu newid ar batrymau addoli'r preswylwyr fe wneir pob ymdrech iddynt ail afael yn yr arfer o fynychu addoldai o'u dewis yn eu hardal newydd.

- **Oed**

Ystyriaeth lawn yn cael ei roi i hyn fel rhan o'r asesiad cymdeithasol ar bob unigolyn. Cydnabyddir bod ambell i breswyliwr wedi byw yn y ddau gartref ers blynyddoedd maith ac y bydd yn gryn her iddynt ymgodymu a newid yn eu sefyllfa. Er mwyn cynorthwyo'r unigolion hyn a'u teuluoedd bwriedir gweithredu rhaglen lawn o gefnogaeth iddynt ar ôl i Fwrdd y Cyngor benderfynu ar yr argymhellion.

**10b) O safbwynt y Dyletswyddau Cyffredinol**

- **Hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif**

Beth bynnag fydd penderfyniad Bwrdd y Cyngor fe fydd y broses o hwyluso hawl unigolion i fynegi barn am eu sefyllfa yn parhau.

- **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth**

Parheir i sicrhau bod cyfle i bawb i fynegi barn ac mewn dull sydd yn addas ac yn briodol beth bynnag yw capasiti meddyliol a chyflwr iechyd a chorfforol yr unigolion.

- **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal**

Bydd cefnogaeth Gwasanaeth Adfocatiaeth yn parhau yn ogystal â lefel y gefnogaeth sydd yn addas ar gyfer pob un o'r preswylwyr. Mae gan bob un ohonynt fynediad at wasanaeth Gweithiwr Cymdeithasol neu Weithiwr Allweddol o fewn pa bynnag gartref fydd yn aros yn agored. Hefyd sicrheir bod adolygiad rheolaidd o anghenion pob preswyliwr yn cael ei gynnal yn flynyddol neu yn sgil unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau.

- **Meithrin perthnasau da**

Bwriedir gweithredu Rhaglen Gynhwysfawr ar gyfer cefnogi preswylwyr a'u teuluoedd fydd yn cael eu heffeithio yn sgil penderfyniad ar yr argymhellion. Bydd y math yma o gefnogaeth yn parhau er mwyn sicrhau bod pawb sydd yn cael eu heffeithio yn setlo lawr yn eu lleoliadau newydd a gyda staff newydd fydd yn gofalu amdanynt.

Gan dderbyn a nodi sylwadau negyddol oedd yn codi o'r ymgynghoriad a'r problemau mae'r argymhelliad yn ei godi yn y tymor byr, gellir dadlau fod y cynnig yn y tymor hir yn cynrychioli newid o safbwynt darparu i'r dyfodol, gyda'r pwyslais yn symud at hybu annibyniaeth: Gall hyn yn ei dro, a gyda chefnogaeth ddigonol, arwain at wella cyfleoedd cyfartal ac at feithrin perthnasau da

**11) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**
(Gall fwy nag un canlyniad fod yn berthnasol i'r polisi)

**Canlyniad 3: Parhau a'r Polisi**
Os oes potensial ar gyfer effaith andwyol neu golli cyfleoedd, dylid nodi'n glir beth yw'r cyfiawnhad dros barhau

Mae'r argymhellion y gofynnir i Fwrdd y Cyngor benderfynu arnynt yn mynd i olygu newid mawr ym mywydau saith allan o'r unarddeg preswylwyr cyfredol a'u teuluoedd. Os penderfynir gweithredu'r argymhellion mi fydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd ati yn ddiymdroi i lunio Rhaglen Gweithredu ar gyfer pob un o'r preswylwyr fydd yn cael eu heffeithio gyda'r newid. Mi fydd rhaglen o'r fath yn cael ei gynllunio o gwmpas yr unigolyn gyda'r gefnogaeth yn dod o gyfeiriad Gweithiwr Cymdeithasol, staff y ddau

Gartref, Gwasanaeth Adfocatiaeth a Chynnal Gofalwyr. Mae'r cyfarfodydd gyda'r teuluoedd wedi dangos bod gwrthwynebiad i'r bwriad o symud unigolion o'r naill gartref neu llall ac oherwydd bydd gofyn bod yn hynod sensitif i deimladau pawb a gweithio o fewn amserlen fydd yn cwrdd ag anghenion yr unigolion a'u teuluoedd.
Y cyfiawnhad dros barhau yw bod modd diwallu anghenion nifer o breswylwyr y cartrefi mewn darpariaeth fyddai'n llawer mwy addas i'w hanghenion ac y gellir rhesymoli'r ddarpariaeth gyfredol i fod yn llawer mwy effeithiol.
Yr un pryd gofynnir i Wasanaethau Cymdeithasol gyflawni ei gynlluniau arbedion effeithlonrwydd o £300k erbyn Ebrill 2012 yn unol â disgwyliadau Strategaeth Arbedion Cyngor Gwynedd 2010-13

**12) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU**

Bydd Bwrdd Prosiect Anabledd Dysgu yn dal i fonitro trefniadau cefnogi preswylwyr a'u teuluoedd yn dilyn pa bynnag benderfyniad a wneir gan Fwrdd y Cyngor.
O dderbyn y cynnig, llunnir rhaglen weithredu fanwl ar gyfer pob un o'r preswylwyr yn seiliedig ar eu hanghenion penodol

**13) CYNLLUN GWEITHREDU**

Dylid atodi Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys y camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen, ac amlinelliad o'r trefniadau adolygu a gwerthuso

Yn sgil y penderfyniad a wneir gan Fwrdd y Cyngor bwriedir llunio Cynllun Gweithredu ar gyfer pob preswyliwr.

**13) PENDERFYNU**

**Mae Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd yn gofyn i Fwrdd y Cyngor gymeradwyo'r argymhellion ar ddyfodol y ddau gartref – Pant yr Eithin a Tan y Marian.**

**Atodiad E.**

**Gwybodaeth Ychwanegol i Adroddiad Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol Bwrdd y Cyngor, 26 Orffennaf 2011 : CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD AR DDYFODOL CARTREFI PRESWYL TAN Y MARIAN, PWLLHELI A PHANT YR EITHIN, HARLECH.**

**DATBLYGIADAU AR SAFLE PANT YR EITHIN, HARLECH.**

## 1. GWELEDIGAETH TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AR GYFER GWASANAETHAU I BOBL AC ANABLEDDAU DYSGU YN Y DYFODOL.

### 1.1 Strategaeth Genedlaethol a Lleol :

Mae neges y strategaeth genedlaethol ynglyn a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu wedi bod yn gyson ers cyhoeddiad Strategaeth Anfantais Feddyliol Cymru yn 1983.

Cadarnhawyd fod yr egwyddorion yn parhau yn ddilys gyda cyhoeddiad Datganiad o dan Adran 7 (1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Lleol 1970 yn y flwyddyn 2007.

Yn fras , mae`r egwyddorion yn gofyn i ni sicrhau fod unigolion gydag anableddau dysgu yn derbyn pob cyfle a chefnogaeth i ddatblygu eu potensial i`r eithaf.

Mae hyn yn cynnwys derbyn hawliau llawn fel dinasyddion a rheoli pob agwedd o`u bywydau i`r goreu o`u gallu.

Rhan o hyn yw gallu byw bywydau mor annibynnol a phosib o fewn cymunedau gyda`r un dewisiadau a chyfleon ac unryw ddinasydd arall o`r un oed.

Mae`r un neges yn cael ei gyflwyno o fewn :

Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol – Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y Ddegawd nesaf, LLC 2008

Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru : Fframwaith Gweithredu , LLC , Ionawr 2011.

Mae Cynlluniau Comisiynu Anabledd Dysgu Gwynedd 2007 – 2010 a 2011 – 2016 yn adlewyrchu y dyheuadau yma.

### 1.2 Prif Yrrwyr :

- Cynnydd yn y nifer o oedolion gydag anableddau dysgu yng Ngwynedd yn yr oedran rhwng 16 -64 oed a dros 65 oed.R ydym yn rhagweld y bydd 76 o bobl ifanc wedi trosglwyddo o Wasanaeth Arbenigol Plant rhwng nawr a 2016.
- Hyn yn cydfynd gyda`r patrwm cenedlaethol.

- Nifer uchel o oedolion sydd yn byw gartref gyda rhiant / gofalwyr dros 70 oed yng Ngwynedd.

- Newid o fewn disgwyliadau defnyddwyr, gofalwyr a theuluoedd.

  Cyhoeddwyd adroddiad cwmni Mobius UK yn 2009. Gofynnwyd i`r cwmni wneud adolygiad o wasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu ar draws Gogledd Cymru gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol Gogledd Cymru.

  Roedd ymgynghori gyda defnyddwyr a gofalwyr ynglyn a`u dyheuadau hwy yn ran greiddiol o`r gwaith.

  Un o argymhellion yr adroddiad oedd lleihau y defnydd o wasanaethau gofal preswyl traddodiadol a datblygu gwahanol adnoddau yn y gymuned fyddai`n rhoi dewis i bobl gydag anableddau dysgu fyw mor annibynnol a phosib, yn ddiogel ac yn caniatau iddynt fwynhau eu hawliau fel dinasyddion.
  Engreifftiau o`r math yma o adnoddau fyddai trefn Tai Gofal Ychwanegol neu denantiaeth cefnogol.

- Yr angen i sicrhau y gwerth goreu am arian. Mae`r nifer o ddefnyddwyr yn cynyddu ond mae`n anhebyg y bydd unryw gynnydd mewn cyllidebau.

  Mae cydnabyddiaeth fod costau lleoliad preswyl yn cynnwys costau ychwanegol i gost gofalu er engraifft cynnal a chadw adeiladau. Yn yr hinsawdd ohoni, mae angen i ni sicrhau fod adnoddau prin yn cael eu targedu at ofynion gofal.

  Mae modelau gwahanol o ofal yn caniatau i ni wneud y goreu o ffynhonellau ychwanegol o arian , er engraifft budd dal tai, ac ar yr un pryd cefnogi strategaethau a dyheuadau unigolion i fod mor annibynnol a phosib.
  Mae hefyd yn cynnig cyfle i gyflwyno adnoddau Teleofal sydd yn gallu cefnogi a chryfhau annibyniaeth a diogelwch.

**1.3 Gweledigaeth ar gyfer Safle Pant yr Eithin :**

1.3.1 Gwelir fod angen lleihau y nifer o adnoddau preswyl traddodiadol gan roi modelau sydd yn cynnig dewis ac yn annog annibyniaeth ynghyd a gwneud gwell defnydd o adnoddau ariannol yn eu lle.

Dylid nodi nad yw byw yn annibynnol yn golygu byw heb gefnogaeth ond bod y gefnogaeth yna yn cyfrannu `n uniongyrchol at y disgwyliadau sydd o fewn y strategaethau ynglyn a`r math o wasanaethau y dylwn fod yn eu darparu.

1.3.2 Argymhellir adeiladu darpariaeth o rhwng 6 – 8 uned anhedd arbenigol ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu ar y safle a bod y ddarpariaeth yma yn lle yr adeilad presennol.
Gall yr unedau fod ar ffurf fflat neu fyngalo ar gyfer unigolyn yngyd a byngalo mwy ar gyfer dau neu dri person i rannu.

Gan fod yr anheddau yn agos i`w gilydd, maent yn cynnig y buddiant o rannu adnoddau gofal er mwyn gwneud y defnydd goreu ohonynt.

Byddai model o`r fath hyn yn cynnig dewis ac annibyniaeth i ddefnyddwyr, yn caniatau i`r Cyngor ymateb i`w gofynion ac i strategaethau cenedlaethol a lleol ac yn gwneud y defnydd goreu o adnoddau prin ynghyd a defnydd llawn o dechnoleg cynorthwyol lle`n briodol.

Mae modelau o`r fath yn gallu cynnig lefel uchel iawn o gefnogaeth a gofal lle mae`r angen.

1.3.3 Mae`r nifer hyd at 8 o anheddau gyda`u gilydd yn cyd fynd gyda argymhellion Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cyd fynd gyda anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol o safbwynt y nifer o bobl ifanc fydd yn dod i mewn i`r gwasanaeth a`r nifer o unigolion sydd eisioes gyda tenantiaeth ond fyddai`n elwa o symud i adnodd fyddai`n fwy addas ar eu cyfar.

Mae gan Wynedd enw da ymysg awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn barod am y ffordd yr ydym wedi gallu lleoli nifer fawr o ddefnyddwyr gydag anableddau dysgu o fewn y gymuned. Fodd bynnag, mae`n amlwg fod angen cynnig mwy o adnoddau o`r fath er mwyn ymateb i anghenion a dyheuadau defnyddwyr y dyfodol a sicrhau adnoddau o safon ddigonol i`n defnyddwyr cyfredol.

Rhaid hefyd sicrhau fod unryw fodel yn rhoi y gwerth goreu am arian o safbwynt adnoddau gofal.

Rhagwelir y bydd angen 17 anhedd newydd ar gyfer defnyddwyr gydag anableddau dysgu o fewn Meirionnydd o fewn y 5 mlynedd nesaf.

Byddai datblygiad o 6 – 8 anhedd ar safle Pant yr Eithin yn gyfraniad sylweddol at hyn.

## 2. Gwireddu`r Weledigaeth :

2. 1 Er mwyn gwireddu`r weledigaeth yma, rhaid cysidro sut y mae`n cyd fynd gyda anghenion llety mwy eang y gymuned leol a sut y gellir ariannu darpariaeth o`r fath. Nodir dod datblygiad cymysg fel hyn yn cyd fynd a`r egwyddor a`r angen i integreiddio pobl gydag anableddau dysgu o fewn cymunedau.

2.2 Mae tri elfen i`r dadansoddiad yma :

a ) Anghenion lletya y gymuned leol ( ardal Harlech )

b ) Adnabod partner ar gyfer yr adeiladu a chynnal y darpariaeth

c ) Ariannu`r datblygiad a chyfraniad y Cyngor.

**3. Anghenion Tai Fforddiadwy – ardal Harlech.**

3. 1 Gellir datgan ar sail tystiolaeth gwybodaeth primaidd ac eilradd fod anghenion tai fforddiadwy digonol yn bodoli yn ardal Harlech i gyfiawnhau cynllyn tai fforddiadwy cyffredinol yn ran o safle Pant yr Eithin,Harlech. ( Gweler Atodiad 1 am y dysiolaeth lawn ).

3.2 Mae gweithredu cynllun posib yn Harlech wedi ei gydnabod o fewn Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol Gwynedd 2011 – 2014.

3. 3 Deallir yn ogystal fod cydnabyddiaeth gan Swyddogion Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri nad oes argaeledd uchel o safleoedd addas ar gyfer datblygu tai o fewn ffin ddatblygu Harlech ond bod safle Pant yr Eithin yn un o'r safleoedd addas prin hynny o ran yr egwyddor o ddatblygu tai yno.

3. 4 Mae Polisi Cynllunio Tai Fforddiadwy Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gofyn am 100% tai fforddiadwy ar safle o fewn ffin Harlech am gynlluniau llai na 4 uned. Am gynlluniau 4 uned neu fwy bydd gofyn am 50% o'r unedau ar y safle fod yn rhai fforddiadwy.

**4. Adnabod Partner ar gyfer y datblygiad**:

4.1 Mae Cymdeithas Tai Eryri wedi datgan diddordeb pendant mewn cyd weithio gyda`r datblygiad yma , fyddai`n cynnwys tai fforddadwy ac adnoddau arbennig ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.

Mae ganddynt fraslun o gynllyn fyddai`n bosib ei adeiladu ar y safle ond byddai raid ymgynghori ymhellach ar yr union gynnwys petau`r datblygiad yn mynd yn ei flaen.

4.2 O safbwynt asiantaethau Tai, mae Harlech o fewn talgylch gweithredol Cymdeithas Tai Eryri a hwy fyddai ein partner o ddewis a`r partner fyddai disgwyl i ni weithio gyda hwy.

Maent yn barod iawn i gyd weithio ar gynllyn busnes yn ystod yr wythnosau nesaf.

4.3 Pe fyddai elfen o unrhyw gynllun a ddatblygir ar safle Pant yr Eithin in cael ei ariannu drwy gyfrwng dyraniad Gwynedd o Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yna byddai yn ofynol i'r eflen yma gael ei ddatblygu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i Wynedd. Gellir datgan fod Cymdeithas Tai Eryri yn un o'r Cymdeithasau Tai hynny sydd gyda statws cofresredig gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu cynlluniau drwy Grant Tai Cymdeithasol yng Ngwynedd, ac yn ogystal mae Harlech yn un o ardaloedd gweithredol Cymdeithas Tai Eryri.

## 5. Ariannu`r Datblygiad :

5. 1 Mae modd ystyried gwneud defnydd o adnoddau Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer y safle ( gweler para 3.2 ) , ynghyd a`r arian fyddai Cymdeithas Tai Eryri yn dod gyda hwy.

5 .2 Mae Cynllun Datblygu Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol Gwynedd 2011-2014 yn cynnwys cynllun 8 tŷ fforddiadwy angen cyffredinol yn Harlech. Mewn egwyddor felly, pe fyddai bwriad i symud ymlaen i ddatblygu safle Pant yr Eithin Harlech ar gyfer tai arbenigol ac elfen tai fforddiadwy, byddai modd ystyried gwneud defnydd o adnoddau Grant Tai Cymdeithasol sydd i Wynedd i ran ariannu elfen o'r datblygiad.

5.3 Nodir o safbwynt polisi`r Parc Cenedlaethol ar Gynllunio Tai Fforddiadwy fod gofyn i 50% o unedau unryw ddatblygiad dros 4 uned fod yn dai fforddiadwy.( gweler para 3.4 )

5.4 Byddai modd darparu sawl opsiwn fforddiadwy ar y safle - yn ddibynnol ar y gwir alw ag angen gan gynnwys:

1. Tai rhent cymdeithasol
2. Tai rhent canolraddol
3. Tai rhan berchnogaeth drwy Grant Tai Cymdeithasol
4. Tai rhan berchnogaeth heb grant.

Yn amlwg byddai angen ymgymryd â gwaith pellach yn lleol er mwyn canfod yr union fath o ddarpariaeth fforddiadwy fyddai yn briodol i'r safle.

5.5 Fodd bynnag, byddai hyn yn anhebygol o fod yn ddigonol os na fyddai tir Pant yr Eithin yn cael ei ryddhau gan y Cyngor fel cyfraniad tuag at y costau. Yn arferol, byddai tir yn cael ei werthu ar y farchned agored. Fodd bynnag, yn yr achos yma gellir nodi y byddai`r datblygiad yn elwa`r gymuned ac unigolion bregys o fewn y gymuned gyda`r Cyngor yn cadw hawliau enwebu ar gyfer y tai fforddiadwy mewn cymalau yn y gwerthiant.Gan mae`r Cyngor fydd yn comisiynu`r gofal ar gyfer yr unedau arbennig mae angen partneriaeth yma y gellir dadleu na fyddai bosib yn yr un modd gyda`r sector breifat.

5.6 Mae modd defnyddio Caniatad Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 er mwyn ymateb i s123 Deddf Llywodraeth Leol 1972 o ran sicrhau`r pris goreu os y byddai`r cynllun busnes a`r amodau gweithredu yn cyfiawnhau ystyried hyn er mwyn cyflawni.

Byddai raid cael caniatad uwch arweinydd Pwyllgor Adnoddau`r Cyngor ynghyd a chadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd i hyn cyn cyflwyno cais mewn ffurf adroddiad i Fwrdd y Cyngor.

Byddai`r trafodaethau yma ac unryw gais ynghlwm yn digwydd o dan arweiniad a goruchwiliaeth yr adran adnoddau.

## 6 Casgliadau :

6.1 Mae tysiolaeth fod angen am dai fforddiadwy yn ardal Harlech.
6.2 O safbwynt lleoliad, nodir fod safle Pant yr Eithin yn leoliad addas mewn ardal lle mae safleoedd o`r fath yn brin.
6.3 Mae tysiolaeth fod angen o ddeutu 17 o unedau arbennig i gyfarch anghenion unigolion gydag anableddau dysgu ym Meirionnydd.
6.4 Nodir fod datblygiadau o ddim mwy nag 8 uned yn cyfarch disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylliad a datblygiadau o`r fath gan fod hyn yn cefnogi integreiddio o fewn y gymuned ac yn cynnig gwerth am arian o safbwynt gofal.
6.5 Mae partner addas a derbynniol wedi nodi parodrwydd pendant i gyd weithio ar gyfer creu cynllun busnes ar gyfer y safle.
6.6 Mae grant Tai Cymdeithasol wedi ei nodi ar gyfer y safle.
6.7 Mae`n bosib cyflwyno cais i gynnwys gwerth y tir fel cyfraniad o fewn y cynllun busnes.
6.8 Mae`n bosib sicrhau buddiannau Cyngor a`r gymuned yn y tymor hir mewn unryw gytundeb fyddai`n ymwneud a hyn.

## 7 Amserlen :

7.1 Argymhelliad ar gyfer trosglwyddo trigolion cartref preswyl preswyl Pant yr Eithin, Harlech

| | |
|---|---|
| Adroddiad i`r Cyngor Llawn | Hydref 2011 |
| Cychwyn gweithredu ar y gwaith trosglwyddo | Tachwedd 2011 |
| Cwbwlhau`r gwaith trosglwyddo | Ebrill 2012 |

7.2 Datblygu`r safle

| | |
|---|---|
| Cadarnhau`r math o ddarpariaeth arbenigol a tai fforddadwy | Tachwedd 2011 |
| Cwbwlhau astudiaeth dichonoldeb | Rhagfyr 2011 |
| Cytuno cynllun busnes gyda`r Cyngor | Ionawr/Chwefror 2012 |
| Cynllyn busnes i bwyllgorau`r cyngor a Bwrdd Tai Eryri | Mawrth 2012 |

**Atodiad 1**

Tystiolaeth am anghenion tai fforddiadwy yn ardal Harlech.

## A. Materion fforddiadwyedd Ward Harlech

- Canran o aelwydydd gyda incwm llai na £20k – 37.4%
- Ar sail 3.5 gwaith incwm, byddai 19% o brynwyr tro cyntaf methu fforddio tai teras yn Harlech
- Ar sail 3.5 gwaith incwm, byddai 58% o brynwyr tro cyntaf methu fforddio tai par (semis) yn Harlech
- Ar sail 3.5 gwaith incwm, byddai 82% o brynwyr tro cyntaf methu fforddio tai arwahan (detached) yn Harlech
- Canran o dai haf ac ail gartrefi – 15.8% o'r holl stoc dai
- Canran o stoc tai Harlech sydd yn dai cymdeithasol – 10.7% (Lefel Cymru oddeutu 17%)
- Nifer o unedau tai cymdeithasol cyffredinol yn Harlech – 49 uned
- Nifer o dai cymdeithasol o'r newydd a ddatblygwyd yn Harlech ers 1998 – 0 uned

## B. Gwybodaeth rhestrau aros Cartrefi Cymunedol Gwynedd/Cyngor Gwynedd

**Ar sail cyfeiriad adref:**
Harlech – 18 ymgeisydd
Talsarnau – 5 ymgesiydd
Llanfair – 3 ymgeisydd
Cyfanswm – 26 ymgeisydd

**Ddim ar sail cyfeiriad adref:**
87 ymgeisydd wedi datgan didddordeb mewn canfod ty rhent cymdeithasol yn Harlech (ond Harlech ddim o reidrwydd y prif ddewis nac yr unig ddewis). Mae'r dadansoddiad o rhain fel a ganlyn:

| **Math o ymgeisydd** | **Nifer o ymgeiswyr** |
|---|---|
| Cwpl 18 i 25 oed | 1 |
| Cwpl 26 i 60 oed | 5 |
| Cwpl dros 60 oed | 4 |
| Cwpl gwahanol oed | 2 |
| Sengl 18 i 25 oed | 3 |
| Sengl 26 i 60 oed | 19 |
| Sengl dros 60 oed | 11 |

| | |
|---|---|
| Sengl 18 i 25 oed gyda plant | 3 |
| Sengl 26 i 60 oed gyda plant | 14 |
| Sengl dros 60 oed gyda plant | 2 |
| Teulu dan 18 oed | 1 |
| Teulu 18 i 25 oed | 4 |
| Teulu 26 i 60 oed | 18 |

**C. Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Tref Harlech – 2009 (gwaith Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd)**

Yn amlwg rhaid cydnabod mai 'snap-shot' o angen mewn cyfnod o amser yw arolwg o'r fath. Fodd bynnag mae arolwg o'r fath yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol iawn o ran nodweddion ac anghenion o fewn y farchnad dai.

Mae rhai o brif ganfyddiadau'r arolwg anghenion tai yn cynnwys:

- Canran a ymatebodd i'r arolwg yn 37%
- 68% o'r rhai a ymatebodd wedi cadarnhau y byddent yn gefnogol i ddatblygiad bychan o dai fforddiadwy ar gyfer pobl lleol.
- 29 wedi datgan y byddent angen symud ty gan gynnwys:
  9 person sengl
  9 cwpl
  10 teulu
- 93% o'r ymatebwyr wedi datgan mai yn ardal Harlech y dymunent symud iddo.
- 78% o'r rhai sydd wedi datgan angen symud tŷ ddim wedi cofrestru ar restr aros felly mae'r rhain yn ychwanegol i'r ymgeiswyr a gyfeirir atynt yn Rhan B uchod.
- 80% o'r ymatebwyr methu fforddio tŷ uwch na £140,000 mewn pris
- 57% o'r ymatebwyr methu fforddio tŷ uwch na £100,000 mewn pris
- 74% o'r ymatebwyr methu fforddio rhent uwch na £390 y mis
- 37% o'r ymatebwyr methu fforddio rhent uwch na £300 y mis
- 62% wedi datgan diddordeb mewn rhent cymdeithasol
- 41% wedi datgan diddordeb mewn cynllun rhan berchnogaeth

**A. Barn yr Aelod Lleol:-**

---

**B. Barn y Swyddogion Statudol:-**

**Y Prif Weithredwr**

"Yn amlwg, mae'r adroddiad sydd gerbron yn ymwneud a newid sydd yn effeithio ar nifer o bobl fregus ac mae unrhyw newid felly am fod yn anodd, yn rhannol oherwydd yr ansicrwydd all gael ei greu. Fodd bynnag, mae sawl cwestiwn sylfaenol i'r Bwrdd ei ystyried yma:-

- Beth yw'r gwir anghenion ar gyfer cefnogi'r unigolion hyn i'r dyfodol?
- A yw'r Cyngor am i'w fuddsoddiad fod mewn adeiladau a sefydliadau neu mewn gwasanaeth uniongyrchol?
- A yw model gwasanaeth y Cyngor yn un sy'n gynaliadwy i'r dyfodol?
- A yw'r model yn gyson a'r weledigaeth ar gyfer y maes gofal?

Byddwn yn awgrymu bod ateb y cwestiynau hynny yn arwain y Bwrdd at benderfyniad bod yn rhaid newid ac felly i dderbyn yr argymhellion sydd gerbron. Os yw'r Bwrdd yn gwneud hynny, rwy'n gwybod y bydd yr adran yn trafod yn sensitif a phriodol gyda'r unigolion a theuluoedd er mwyn lleihau pryderon a hwyluso unrhyw newid sydd ei angen."

**Swyddog Monitro**

"Mae'r adroddiad yn cynnig argymhelliad yn dilyn proses ymgynghori ar ddyfodol y cartrefi preswyl. Ymdrinnir â'r ystod o ystyriaethau perthnasol i'r penderfyniad yn y ddogfen a'r atodlenni. Dylai'r Bwrdd gloriannu canlyniadau'r ymgynghoriad gyda'r materion eraill a gynhwysir yn yr adroddiad wrth ddod i benderfyniad ar yr argymhelliad. "

**Prif Swyddog Cyllid**

"Cadarnhaf gywirdeb yr amcangyfrifon ariannol sy'n ymddangos yn rhan 7a o adroddiad y Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad sy'n rhan 9, gan fod y Cyngor (yn Rhagfyr 2009) wedi ymrwymo i gyflawni'r arbediad effeithiolrwydd yma, ac ymddengys y bydd modd cyflawni hynny wrth gyfarch gwir anghenion yr unigolion bregus i'r dyfodol."

---

**C. Papurau Cefndirol**

---

**CH. Goblygiadau Polisi**

---